Cyngor Tref Llandeilo Fawr Town Council

Polisi Cydraddoldeb

Bwriad
Bwriad y polisi hwn yw hybu cyfle cyfartal o ran mynediad at holl wasanaethau'r Cyngor heb wahaniaethu ar sail rhyw, anabledd, tarddiad ethnig, crefydd, oedran neu dueddfryd rhywiol, yn ogystal ag ystyried natur ddwyieithog y gymuned.

Egwyddorion
Cyfle Cyfartal:
~ mynd i'r afael â gwahaniaethu,
~ moesoldeb,
~ urddas yr unigolyn,
~ tegwch,
~ cwrteisi a pharch,
~ safon uchel o ymddygiad.

Y brif egwyddor yw bod polisïau, prosiectau a gwasanaethau yn cwrdd ag anghenion yr holl grwpiau o fewn cymdeithas. Golyga hyn na fydd gwahaniaethu ac fe fyddwn yn rhagweithiol wrth ddelio â rhwystrau o ran cyfranogiad.

Cwmpas
Mae'r polisi yn ymwneud â holl staff ac aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd.

Dull Gweithredu
Byddwn yn edrych ar bethau o safbwynt cyfle cyfartal wrth gynllunio a gweithredu pob polisi a phrosiect. Enwebir un cynghorydd, wedi'i apwyntio gan y Cyngor llawn ac yn atebol i'r Cyngor llawn, a fydd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiad y Cyngor gyda'i bolisi cyfle cyfartal. Bydd unrhyw gwynion yn cael ei gyfeirio at y cynghorydd hwn ar gyfer eu harchwilio, ac fe gyflwynir adroddiad i'r Cyngor llawn er mwyn cymryd y camau priodol.